

# Cyngor Cymuned Pentir

**Cofnodion Cyngor llawn gynhaliwyd Nos Iau 12<sup>fed</sup> o Hydref 2017 yn Parc Menai am 7pm**

## **Presennol:**

Y Cyng. R Jones, L James, D W Jones, J Pierce, C Hughes, T Anwyl-Williams  
E Jones (Clerc )

## **Ymddiheuriadau:**

Y Cyng, D Jones-Morris, R G. Roberts, B Jones, M Baines H Griffiths a James Griffiths

**Cadeirwyd ac offrymwyd gweddi gan Cyng Cynrig E Hughes.**

## **Côd Ymddygiad**

Atgoffwyd pawb o'n côd ymddygiad a'r angen i ddatgan buddiant os codai yr angen

## **Cofnodion 14eg o Medi**

Cyng D W Jones yn cynnig eu bod yn gofnod cywir a'r Cyng J Pierce yn eilio

## **Materion yn codi o'r cofnodion**

Ymateb Coed Fodol - Clerc wedi cysylltu hefo Swyddogion y Cyngor ond dim ymateb wedi cyrraedd hyd yma. E-bost wedi ei dderbyn gan y Cyng Menna Baines yn datgan fod y Cyngor yn ceisio datrys y broblem.

**Cytuno Clerc i gysylltu eto Gwynedd a chopio Cyng Menna Baines a Priffyrdd i mewn**

## Adroddiad o'r Is-bwyllgor Cyllid

- Adroddiad o'r IBC 27/09/17 dosbarthwyd cofnodion gan nodi nad oeddent wedi eu derbyn yn gywir tan yr IBC nesaf fyddai ymlaen ddiwedd Hydref
- Ymateb BDO Llythyr wedi ein cyrraedd y hysbysu nad oedd BDO wedi Arwyddo'r Cyfrifon i ffwrdd erbyn diwedd Medi ag oherwydd hynny ein bod angen hysbysu'r cyhoedd o hynny.

## **Cytuno i arddangos y rhybudd am 14 diwrnod ag ar y wefan pan ddaw yn weithredol**

- Cofrestr Asedau

## **Cytuno i'r Clerc ddosbarthu ffurflenni ar gyfer eu cwblhau**

- Ceisiadau Ad 137 - Llais Ogwan 'Roedd cais wedi ei dderbyn gan Llais Ogwan ond eu mantolen ariannol yn dangos eu sefyllfa ariannol 15- 16

**Cytuno i'r Clerc gysylltu a gadael iddynt wybod y byddwn yn ei ystyried unwaith y byddwn wedi derbyn mantolen gyfredol.**

## Adroddiad o'r Is-bwyllgor Asedau 21/09/2017

Dosbarthwyd cofnodion gan nodi nad oeddent wedi eu derbyn yn gywir tan yr IBA nesaf fyddai ymlaen yn ystod Tachwedd

**Mapiau** Mynegwyd pryder ar ble oedd wedi derbyn a/neu heb dderbyn y mapiau.

- Awgrymwyd fod cyflenwad yn cael ei anfon i Llyfgell Bangor
- Cyng T A Williams am fynd a dosbarthu yn ardal Treborth
- Gareth Roberts yn awyddus i gael cyflenwad i'w dosbarthu ar ei nosweithiau cerdded

Mynegwyd fod angen cytuno ar be yn union ydi rôl y ddau Is Bwyllgor gan fod adegau pan mae pethau yn cael eu trafod nid yn unig ddwy waith ond weithia dair gwaith yn yr un mis.

**Cytunwyd Argymell i roi 'Strwythur yr Is-Bwyllgorau' ar Agenda y Cyngor Llawn yn Mis Ionawr**

## Ceisiadau Cynllunio ardal Pentir ers Mis Medi / Hydref

- Cais Apel Peny Ffridd C13/1143/11/AM

Esboniodd y Clerc iddo dderbyn e-bost yn cynnig y cyfle i'r Cyngor ymateb i'r cais yma erbyn y 12fed o Hydref (heddiw) Er iddo ofyn am estyniad ar ol heno gwrthodwyd ei gais. Yn sgil hynny 'roedd wedi ysgrifennu llythyr o wrthwynebiad ar y sail nad oedd y Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd rhwng Mon a

Gwynedd yn cymeradwyo unrhyw ddatblygiad o'r maint yma. Mae'r CDLI hefyd wedi adnabod safleoedd eraill ym ardal Bangor ar gyfer adeiladu tai sydd yn cyd-fynd a'r Cynllun

- Cais C17/0938/25/LL Codi Ty Dormer a lle parcio  
Prysor, 9, Cilgant Alotan, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2NG **Gwrthwynebu**
- Cais C17/0942/25/CC Torri a thocio coed yn Parc Menai **Dim gwrthwynebiad**

Mater Lodge Glan y Mor 2014

Trafodwyd e-bost gan Mr S Williams ynglyn a chais oedd y Cyngor wedi ei drafod nol yn 2014 yn gofyn am gefnogaeth Cyngor Pentir

Gan nad oedd yn glir iawn o'r e-bost pa fath o gefnogaeth oedd Mr Williams yn ei ddisgwyl 'roedd y Clerc cyn y Cyfarfod heno wedi gofyn am esboniad, ond 'doedd dim ymateb wedi ei dderbyn.

Eto 'roedd y Cyng M Baines yn ei absenoldeb wedi e-bostio a datgan fod hwn bellach yn cael ei ddelio drwy gyfraith.

**Cytunwyd i'r Clerc e-bost Mr Williams yr eildro yn holi pa gefnogaeth oedd o yn chwilio amdano**

Y Wefan Derbynwyd diweddariad ar ddatblygiad y Wefan gan y Cyng L James.

Yn amlwg iawn mae llawer o waith wedi ei wneud yn ei datblygu ond hyd yn hyn nid yw'n fyw. 'Roedd dipyn o drafodaethau wedi bod rhwng LJ a Chwmni Delwedd ynglyn a man newidiadau oedd LJ yn awyddus i ddigwydd.

**Cytunwyd i'r Cyng L J barhau gyda'r trafodaethau a hefyd holi ynglyn a chostau fydd yn dod i'n rhan yn sgil gweinyddu y Wefan a hefyd yr angen i gyfieithu**

**Diolchwyd i'r Cyng am ei gwaith caled**

#### Materion y Clerc

- Gohebiaethau
  - Prydles Canolfan Penrhos – Dim datblygiad o unrhyw fath gan nad yw adran gyfreithiol Cyngor Gwynedd wedi bod mewn cyswllt a'n Cyfreithwyr ni Gamlins
  - Diweddariad - Dim pellach i'w adrodd yn ol o'r Pwyllgor Rheoli
- Adroddiadau
  - Cysgodfan Rhyd y Groes

'Roedd bwriad i'r Clerc a'r Cadeirydd fynd i weld safon y cysgodfannau yn Llithfaen ond gan nad oedd gan y cyflenwr esiamplau i'w dangos 'doedd dim pwrpas mynd. Mae'r cyflenwr yn eu gwneud fel fyddai ordor yn dod i mewn.

**Cytunwyd archebu cysgodfan dair ochr ar gyfer y safle yn Rhydygroes**

#### Materion y Cyngorwyr

Cyng C E Hughes

1. Gweler atodiad gennyf am enwau lonydd a chyfeiriadau. **Clerc i gysylltu a C Gwynedd**
2. Y Ficar yn gofyn a fysan nhw yn cael rhoi rhestr o wasanaethau yr Eglwys ar hysbysfwrdd y Fynwant newydd? **Cytuno i'r Ficer gysylltu a'r Clerc i gytuno ar drefniant**
3. Holi pa bryd ma'r gysgodfan yn cael ei gosod? **O fewn Mis yn ol y cyflenwr**
4. Oes modd cael hysbysfwrdd (yr un sydd ar y gweill) wrth ymyl y bocs ffon? **Na gan fod Cyng Gwynedd wedi cytuno yn barod i ni ei osod wrth y gysgodfan**

Llnau y Cysgodfannau Cyng C Hughes wedi cael pris gan Ray Davis o £50 yr un am gysgodfan Pentir a Chaerhun. **Cytuno i dalu hyn unwaith** ond gofyn hefyd am bris cytundeb i llnau y 7 sydd yn eiddo Cyngor Pentir

Bocsus Blodau

Planhigion bellach yn edrych yn llawer gwell – efallai fod angen trafod 'cynllun' gyda'r contractwr ag amserlen.

**Clerc i drefnu**

Daeth y cyfarfod i ben 9.15

Cyfarfod nesaf Nos Iau 9fed o Dachwedd